<sup>6</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111165485/schedule/1?view=plain>

<sup>7</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2010/543/contents>

<sup>8</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111165485/schedule/1?view=plain>

<sup>9</sup> [https://www.act.gov.au/\\_data/assets/word\\_doc/0006/1194306/Code-of-Practice-2018-Racing-Greyhounds.docx](https://www.act.gov.au/_data/assets/word_doc/0006/1194306/Code-of-Practice-2018-Racing-Greyhounds.docx) Er bod y cod hwn wedi'i lunio ar gyfer rasio milgwn yn Nhiriogaeth Prifddinas Awstralia, caiff ei ddefnyddio trwy'r cod hwn gan ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

<sup>10</sup> <https://www.gbgb.org.uk/rules-regulation/rules-of-racing/>

<sup>11</sup> <https://www.bsigroup.com/en-GB/about-bsi/media-centre/press-releases/2018/january/New-specification-for-care-of-racing-greyhounds-launched/>

<sup>12</sup> <http://politicalanimal.org.uk/wp-content/uploads/2015/04/RSPCA-Guide-The-welfare-of-seized-dogs-in-kennels.compressed.pdf>

Dylech fod yn ymwybodol bod y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y Cod a'i Atodiadau yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi, ond gall newid wedi hynny. Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r Cod, ond bwriedir iddo egluro pwrpas ac amcanion cyffredinol y Cod. Yn yr un modd, nid yw'r Atodiadau sy'n rhoi sylw i'r gofynion cyfreithiol perthnasol ychwaith yn rhan o'r Cod.

Bwriad y Cod Ymarfer yw sicrhau bod y rheiny sy'n gyfrifol am les milgwn rasio yn cyrraedd y safon ofynnol yn ôl deddfwriaeth a'u bod yn cael eu hannog i fabwysiadu'r safonau gofal uchaf posibl.

## DIFFINIADAU

At ddibenion y ddogfen hon, diffinnir milgi rasio fel ci sy'n cael ei fridio, ei fagu, ei gadw, ac/neu ei ddefnyddio at ddibenion y diwydiant rasio.



Llun: Nerys Royal



## CYNNWYS

<b>RHAN 1:</b>	CANLLAWIAU CYFFREDINOL.....	TUDALEN 5
<b>RHAN 2:</b>	BRIDIO (YN YCHWANEGOL AT Y CANLLAWIAU A DDISGRIFIR YN RHAN 9: Y CENEL Y BYDD MILGWN YN BYW YNDDO WRTH HYFFORDDI).....	TUDALEN 6
<b>RHAN 3:</b>	ADNABOD AC OLRHAIN .....	TUDALEN 9
<b>RHAN 4:</b>	CYFNOD LLAETHA (YN YCHWANEGOL AT Y CANLLAWIAU A DDISGRIFIR YN RHAN 9: Y CENEL Y BYDD MILGWN YN BYW YNDDO WRTH HYFFORDDI).....	TUDALEN 10
<b>RHAN 5:</b>	MAGU (YN YCHWANEGOL AT Y CANLLAWIAU A DDISGRIFIR YN RHAN 9: Y CENEL Y BYDD MILGWN YN BYW YNDDO WRTH HYFFORDDI).....	TUDALEN 12
<b>RHAN 6:</b>	HYFFORDDI A DYSGU (YN YCHWANEGOL AT Y CANLLAWIAU A DDISGRIFIR YN RHAN 9: Y CENEL Y BYDD MILGWN YN BYW YNDDO WRTH HYFFORDDI) .....	TUDALEN 14
<b>RHAN 7:</b>	GWERTHU MILGWN.....	TUDALEN 15
<b>RHAN 8:</b>	CLUDO MILGWN .....	TUDALEN 16
<b>RHAN 9:</b>	Y CENEL Y BYDD MILGWN YN BYW YNDDO WRTH HYFFORDDI NEU LETY ARALL IDDYNT FYW YNDDO .....	TUDALEN 18
<b>RHAN 10:</b>	CYFARFODYDD RASIO A THREIALU .....	TUDALEN 29
<b>RHAN 11:</b>	GADAEL Y DIWYDIANT .....	TUDALEN 32
<b>ATODIAD A</b>	.....	TUDALEN 34

---

## RHAN 1: CANLLAWIAU CYFFREDINOL

- 1 Rhaid peidio â chadw anifeiliaid bychain (megis cwingod, ysgyfarnogod, llygod, moch cwta, cathod ac ati) mewn ardaloedd lle mae gan filgwn rasio fynediad corfforol, gweledol neu arogleuol iddynt.**
- 2 Dylai pob sefydliad sy'n bridio, magu, rasio neu'n lletya milgwn fod â Chynllun Lles a Rheoli (WMP) ar gyfer materion gweithredol cyffredinol ac ar gyfer rheoli milgwn, eu lles, eu cymdeithasoli, eu cyfoethogi a'u haddysg (fel y bo'n briodol).*
- 3 Dylai'r Cynllun amlinellu unrhyw brotocolau sy'n wahanol i'r gofynion a amlinellir yn y Cod hwn a dylid eu hadolygu'n flynyddol. Pan na chaiff protocolau eu nodi, mae'r gofynion a amlinellir yn y Cod hwn yn berthnasol.*
- 4 Os oes gan sefydliad sawl Person â Chyfrifoldeb, yna dylai'r Cynllun nodi'r Person â Chyfrifoldeb sy'n gyfrifol am bob ardal o'r sefydliad neu ran o'r Cynllun, gan gynnwys ardaloedd a rennir / cyffredin.*
- 5 Dylai milfeddyg gymeradwyo'r Cynllun i ddechrau arni, ac yna bob tair blynedd wedi hynny. Os bydd y milfeddyg sy'n cefnogi'r sefydliad yn newid, dylid rhoi copi o'r Cynllun i'r milfeddyg newydd cyn gynted â phosibl.*
- 6 Dylid gosod larymau tân a darparu offer ymladd tân, gan eu cynnal a'u cadw yn dda a hyfforddi staff sut i'w defnyddio.*
- 7 Dylai milfeddyg wneud archwiliad o bob sefydliad sy'n cadw milgwn o leiaf unwaith y flwyddyn.*
- 8 Ar gyfer pob safle lle caiff cŵn eu cadw i ffwrdd o fan preswyl eu gofalwr neu eu perchennog, dylid arddangos rhif cyswllt brys wrth y fynedfa allanol. Dylid arddangos yn glir y cynllun gwacáu brys ynghyd â gweithdrefn petai tân.*
- 9 Dylid arddangos manylion cysylltu â'r filfeddygfa ynghyd â'i lleoliad er mwyn i'r holl staff fedru gweld y wybodaeth. Dylai hyn gynnwys darpariaethau y tu allan i oriau swyddfa arferol.*
- 10 Dylid cael ffôn waith yn yr adeilad pryd bynnag y bydd staff yno, a'i bod ar gael i gysylltu â'r gwasanaethau brys.*



## RHAN 2: BRIDIO

### a. Dewis cŵn ar gyfer bridio

- 1 Ni ddylai pâr bridio fod yn perthyn yn agos, er enghraifft, tad a merch; brawd a chwaer; mam a mab. Ni ddylai paru perthynas ar yr ach agosaf nac ychwaith paru ar yr ail ach (er enghraifft, taid ac wyres).
- 2 Ni ddylid cadw milgwn ar gyfer bridio os gellir disgwyl yn rhesymol (ar sail eu genoteip, ffenoteip neu gyflwr iechyd) y gallai bridio ohonynt gael effaith niweidiol ar eu hiechyd neu eu lles eu hun, neu iechyd yr epil. Yn ogystal ag ystyried iechyd corfforol, ni ddylid cadw cŵn at ddibenion bridio os ydynt yn ymddwyn yn ofnus tu hwnt.
- 3 Argymhellir yn gryf bod pob milgi bridio yn cael eu profi'n enetig am unrhyw ddiffygion etifeddol cyn eu defnyddio i fridio, os yw prawf effeithiol a dibynadwy ar gael yn fasnachol. Os yw gofawr yn ansicr pa brofion sy'n berthnasol, dylent ymgynghori â milfeddyg. Ni ddylid bridio o unrhyw filgwn yn y sefydliad sy'n cario genynnau ymgiliol ar gyfer unrhyw nam etifeddol sy'n achosi afiechyd neu anhwylder.
- 4 Os oes gan unrhyw epil ddiffyg etifeddol, yna dylai'r Person sydd â Chyfrifoldeb am yr epil hwnnw ddatblygu cynllun iechyd ac ysbaddu ar y cyd â milfeddyg, a dylid datgelu'n llawn yr holl fanylion am yr anhwylder etifeddol ac unrhyw effeithiau tebygol ar y milgi i'w perchnogion cofrestredig ac unrhyw ddarpar brynwyr.
- 5 Os hysbysir Person â Chyfrifoldeb bod milgi a werthwyd ganddo wedi cael diagnosis gan filfeddyg fel un sydd â nam etifeddol, dylent roi'r gorau i fridio o rieni'r milgi hwnnw hyd nes:
  - i) bod o leiaf un o'r rhieni wedi cael eu profi am y nam etifeddol, os yw'r rhiant hwnnw'n dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer bridio a bod prawf derbyniol ar gael. Os nad oes prawf derbyniol ar gael, dylai milfeddyg asesu o leiaf un o'r rhieni am y nam etifeddol;
  - ii) bod epil eraill y rhieni hynny sy'n dal yn y sefydliad yn cael eu profi am y nam etifeddol, os yw prawf derbyniol ar gael.

- 6 Rhaid i filgi a miliast fod yn 12 mis oed o leiaf, a dylent fod yn 18 mis oed o leiaf, cyn eu gwasanaeth cyntaf.
- 7 Dylai unrhyw gi y bwriedir ei fridio gael archwiliad iechyd cyffredinol gan filfeddyg cyn ei wasanaeth cyntaf i benderfynu a yw'n aeddfed yn gorfforol ac yn addas at ddibenion bridio.
- 8 Dylid asesu iechyd miliast fagu o fewn pedair wythnos cyn ei pharu.
- 9 Dylai'r Person â Chyfrifoldeb gael tystysgrif gan y milfeddyg i nodi bod y milgi, ar adeg yr archwiliad, yn iawn i'w fridio.
- 10 Rhaid i filiast beidio â chael mwy na chwe thorllwyth/torraid yn ystod ei hoes ac ni ddylai gael mwy na phedwar oni bai iddi gael ei harchwilio gan filfeddyg sydd o'r farn na fydd cynhyrchu torllwyth arall yn niweidiol i'w hiechyd neu ei lles.
- 11 Rhaid i filiast beidio â rhoi genedigaeth i fwy nag un dorllwyth o gŵn bach mewn cyfnod o 12 mis (ac ni ddylai esgor ar fwy nag un bob 18 mis).
- 12 Ni ddylid bridio o ast os yw dros chwe blwydd oed.
- 13 Rhaid i bob milgi bridio gael mynediad dyddiol i ardal awyr agored ddiogel lle gallant wneud ymarfer corff, chwarae, ymwneud â chŵn eraill ac archwilio eu hamgylchedd. Dylai hyn fod am o leiaf 30 munud y dydd.
- 14 Ni ddylid cadw miliast sydd yn cwana neu sy'n agos at y cyfnod hwnnw mewn cyswllt arogleuol â milgwn gwrywaidd naw mis neu'n hŷn.

### b. Cyplu (gan gynnwys ffrwythloni artiffisial)

- 1 Dylai parau sy'n paru'n naturiol gael eu gwahanu oddi wrth anifeiliaid eraill a'u goruchwyllo wrth iddynt baru.
- 2 Ni ddylid rhoi milgi gyda mwy nag un ast ar unrhyw adeg at ddibenion paru naturiol.

- 3 Ni ddylid defnyddio stand bridio neu baru cŵn (sy'n cyfyngu ar allu'r ast i symud neu droi a thrwy hynny wrthwynebu gael ei chyplu).
- 4 Os yw'r milgi yn aflonyddu'n ormodol ar y filiast, dylid ei symud hi a gofyn am gyngor milfeddyg.
- 5 Ar ôl y cyplu, dylai'r ddau filgi gael eu gwahanu, eu hasesu am arwyddion anaf, a chael triniaeth lle bo angen.
- 6 Ni ddylid defnyddio milgi fwy na 14 gwaith y mis, gan gynnwys paru naturiol, ffrwythloni ac echdynnu semen.
- 7 Dylai miliast aros amser priodol ar ôl paru blaenorol, yn ôl cyfarwyddyd milfeddyg.
- 8 **Milfeddyg yn unig sydd i wneud unrhyw ffrwythloni artiffisial traws-serfigol.**
- 9 **Os ffrwythlonir drwy'r wain, rhaid i berson sydd wedi'i hyfforddi'n briodol wneud hyn, ond argymhellir mai milfeddyg yn unig sy'n ei wneud.**
- 5 Ni ddylid rhoi unrhyw feddyginiaethau presgripsiwn i ast sy'n esgor oni bai bod hynny o dan gyfarwyddyd milfeddyg.
- 6 Os sylwir ar unrhyw beth anarferol neu os oes pryderon am les y filiast neu'r cŵn bach yn ystod y broses esgor, dylid holi am gyngor milfeddyg ar unwaith.
- 7 **Os oes angen, rhaid i filfeddyg berfformio toriad Cesaraidd a rhaid rhoi anesthesia priodol a lleddfu'r boen.**
- 8 Dylai gofal ar ôl llawdriniaeth toriad Cesaraidd gynnwys lleddfu poen yn ddigonol a'i wneud yn unol ag union gyfarwyddiadau'r milfeddyg.
- 9 Dylai'r Person â Chyfrifoldeb gael cyngor milfeddygol ysgrifenedig ynghylch gofal i filiast ar ôl toriad Cesaraidd gan gynnwys protocolau ymarfer corff.
- 10 **Rhaid i ofalwyr milgwn ofyn am gyngor milfeddygol os bydd cymhlethdodau yn codi ar ôl llawdriniaeth.**

### c. Geni cŵn bach

- 1 O leiaf saith diwrnod cyn ei dyddiad esgor (oni bai bod tebygolrwydd o roi straen arni neu ei hanafu), dylid symud miliast feichiog i ardal esgor, sef man sy'n ddigon mawr i roi modd iddi ymddwyn yn naturiol ac i orffwys oddi wrth y dorllwyth.
- 2 Ni ddylai'r ardal esgor ynysu'r ast a'r dorllwyth o olwg, sŵn nac arogl geist cyfarwydd eraill a chysylltiad dyddiol â phobl.
- 3 Dylid darparu ardal o fewn yr ardal esgor lle gall yr ast orffwys i fwrdd oddi wrth ei chŵn bach.
- 4 Cyn gynted ag y bydd y filiast yn dangos arwyddion esgor, dylid darparu deunydd gwely ffres iddi a dylid monitro'r ast a'r cŵn bach newydd-anedig drwy'r adeg gan rywun sydd â phrofiad o broses esgor normal ac sydd â'r gallu i adnabod unrhyw ddigwyddiadau annormal ar unwaith ac i fynd ar ofyn cyngor milfeddyg.
- 11 Ar ôl i'r esgor ddod i ben, dylai'r Person â Chyfrifoldeb neu staff eraill wneud y canlynol:
  - i) monitro'r filiast a'i chŵn bach o leiaf bob tair awr am y 48 awr gyntaf, a phob chwe awr wedi hynny nes bod y cŵn bach yn bwydo'n iawn a bod y fam yn gadarn wedi'u derbyn; cynnal archwiliad o iechyd y cŵn bach cyn pen 12 awr ar ôl yr esgor;
  - ii) glanhau'r man esgor a newid yr holl ddeunydd gwely, cyn pen 24 awr.
- 12 Dylai'r deunydd gwely fod yn ddiogel i'r cŵn bach heb greu perygl o'u mygu, neu o wasgu'r cŵn bach o dan haenau lluosog.
- 13 **Rhaid gafael mewn cŵn bach yn rheolaidd ychydig ar ôl eu geni (o fewn wythnos), am gyfnodau byr i'w cael i arfer â chyswllt dynol ac i'w harchwilio am unrhyw arwyddion o anaf, salwch neu afiechyd ac i sicrhau eu bod yn magu pwysau (gweler hefyd Rhan 5: Magu).**

**14** Dylid bwydo milieist sy'n feichiog ac yn llaetha o leiaf ddwywaith y dydd, a hynny â bwyd o ansawdd maeth priodol, ac mewn maint digonol, i ddiwallu eu hanghenion neu eu bwydo o dan gyfarwyddyd milfeddyg.

**15** Dylai miliast gael archwiliad iechyd cyffredinol gan filfeddyg o fewn 8 wythnos ar ôl esgor.

**16** Ni ddylai miliast gymryd rhan mewn treialu na rasio am o leiaf ddeg wythnos ar ôl esgor.

*Dylai'r Person â Chyfrifoldeb gael tystysgrif gan filfeddyg i nodi bod y filiast yn iach ar ôl esgor, cyn iddi ddychwelyd i rasio.*

**17** Ni ddylai milieist gael mwy na dau doriad Cesaraidd, ond argymhellir un toriad Cesaraidd yn unig, ac ar ôl hynny ni ddylid eu paru ac yn ddelfrydol dylid eu hysbaddu.



Llun: Debra Allen

## RHAN 3: ADNABOD AC OLRHAIN

Mae'r gweithgor yn credu'n gryf bod cael dull adnabod gorfodol ar filgwn rasio a chofnodi manylion perthnasol ar gronfa ddata yn hanfodol er mwyn sicrhau olrhain milgwn rasio trwy gydol eu gyrfa. Heb hyn, mae'n amhosibl gwybod niferoedd a dyfodol y cŵn hynny yr ystyrir eu bod yn anaddas ar gyfer rasio cyn eu treialu, ar ôl anaf neu ar ddiwedd eu gyrfa rasio.

Mae darpariaethau ar gyfer adnabod ac olrhain milgwn rasio yn Lloegr wedi'u nodi yn 'Rheoliadau Lles Milgwn sy'n Rasio 2010'<sup>13</sup> ac mae'r rhain wedi'u mabwysiadu yn y Cod hwn.

- 1 Rhaid i bob ci dros 8 wythnos oed gael microsglodyn<sup>14</sup> a rhaid cofrestru manylion y ceidwad ar gronfa ddata gymeradwy.**
- 2 Rhaid i filgwn, pan fyddant mewn man cyhoeddus (ac eithrio ar y trac rasio) wisgo coler sydd ag enw a chyfeiriad y perchennog wedi'i arysgrifio arno neu ar blât neu fathodyn ynghlwm wrtho.**
  - i) Argymhellir nad yw cŵn yn cael tatŵ, gan y gallai hyn achosi poen diangen. Fodd bynnag, os bydd hyn yn digwydd dylid ei wneud drwy liniau'r boen yn briodol;
  - ii) *Dylai pob ci bach a aned yn fyw ym mhob torllwyth gael eu cofrestru ar lyfrau cymdeithas gydnabyddedig o fewn saith diwrnod i'w geni;*
  - iii) *Dylai gweithredwr y trac sicrhau bod manylion pob milgi sy'n cael ei rasio neu*

*ei dreialu ar eu trac yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata. Dylai'r manylion hyn gynnwys: eu henw; rhif microsglodyn a thatŵ (os yw'n briodol); rhyw; dyddiad geni; cofnod bod y brîd yn filgi; enw a chyfeiriad y perchennog/perchnogion a'r hyfforddwr(wyr); rhif ffôn cyswllt ar gyfer pob perchennog a hyfforddwr a chyfeiriad at unrhyw filgwn eraill sydd wedi'u cofrestru o dan enw'r perchennog a'r hyfforddwr hynny ar y gronfa ddata. Dylid cadw'r wybodaeth hon yn unol â deddfwriaeth diogelu data.*

- 3 Dylai gweithredwr y trac ofyn i berchnogion neu hyfforddwyr gynhyrchu dull adnabod ffotograffig ynghyd â phrawf o'u henw a'u cyfeiriad cyn i filgi fynd i mewn i ras neu dreial ar y trac am y tro cyntaf. Dylai'r gweithredwr gadw'r cofnodion hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data.**

<sup>13</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2010/9780111489727/contents>

<sup>14</sup> Gweriniaeth Iwerddon - <http://www.irishstatutebook.ie/eli/2015/si/63/made/en/pdf>; Gogledd Iwerddon - <https://www.nidirect.gov.uk/articles/dog-licensing-and-microchipping>; Yr Alban - <https://www.legislation.gov.uk/sdsi/2016/9780111030127>; Lloegr - <http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2015/108/contents/made>; Cymru - <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1990/contents/made>

## RHAN 4: CYFNOD LLAETHA

- 1 Dylai'r monitro ar filieist sy'n llaetha gynnwys cadw golwg yn rheolaidd ar y canlynol o leiaf bob pedair awr:
  - i) y cŵn bach yn bwydo;
  - ii) llaetha'r filiast;
  - iii) os yw'n berthnasol, monitro clwyfau Cesaraidd am gochni, chwyddo a rhedlif.
- 2 Dylid gwaredu'r deunydd gwely budr, a rhoi deunydd gwely glân bob dydd yn ystod y cyfnod llaetha.
- 3 Yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl yr esgor, dylid archwilio geist ddwywaith y dydd am fastitis a chael sylw milfeddygol ar unwaith os amheuir hyn.
- 4 Dylid sicrhau fod geist sy'n llaetha yn cael o leiaf bedwar cyfnod y dydd ar gyfer toiled ac ymarfer corff i ffwrdd o'u cŵn bach.
- 5 **Rhaid darparu gwres ychwanegol i gŵn bach newydd-anedig (megis lamp gwres sydd â 25 wat) yn yr ardal esgor am y 10 diwrnod cyntaf ar ôl genedigaeth a dylent bob amser gael mynediad i ardal sydd rhwng 26 a 28 gradd Celsius.**
- 6 Pan fydd y tywydd yn boeth, dylent hefyd gael mynediad i ardal arall oerach, er mwyn i'r fam fedru cadw tymheredd corff priodol.
- 7 Dylid darparu bwyd i gŵn bach o dair wythnos oed hyd at ddiwedd y cyfnod diddyfnu, sef y bwyd priodol i'w hoedran datblygu a hwnnw mewn cynhwysydd bwyd isel.
- 8 Dylai cŵn bach sydd wedi'u diddyfnu'n llawn sydd o dan 16 wythnos oed gael eu bwydo o leiaf dair gwaith y dydd gyda diet cytbwys o ran maeth ac sy'n briodol i'w hoedran.
- 9 Dylid bwydo cŵn bach amddifad a chyn eu diddyfnu o dan gyfarwyddyd milfeddyg neu yn unol â'r Cynllun Lles a Rheoli.
- 10 Os na fydd cŵn bach yn magu pwysau, dylai'r Person â Chyfrifoldeb ofyn am gyngor milfeddyg a gweithredu yn unol â'u cyfarwyddyd. Dylai cŵn bach gael mynediad di-dor at ddŵr glân, o dair wythnos oed.
- 11 Argymhellir bod milgwn dros 16 wythnos oed yn cael eu cynhwysydd bwyd eu hunain.
- 12 **Rhaid i gŵn bach gael cynllun iechyd ataliol, wedi'i lunio ar y cyd â'r milfeddyg. Dylid cofnodi hyn yng nghofnod iechyd pob ci unigol a dylai gynnwys brechiadau yn erbyn:**
  - i) Clefyd y Cŵn;
  - ii) Hepatitis Heintus mewn Cŵn (adenofirws);
  - iii) Leptospirosis;
  - iv) Parfofeirws y Cŵn;
  - v) Peswch Cŵn (paraffliw [Math II]) a;
  - vi) Bordetella bronchiseptica.
- 13 **Rhaid cael rhaglen reoli ar gyfer parasitiaid mewnol ac allanol yn rheolaidd o'r adeg pan fo'r cŵn yn bythefnos oed fel y cytunwyd gan y milfeddyg yn y cynllun iechyd ysgrifenedig.**
- 14 **O ganfod unrhyw barasitiaid mewnol neu allanol (e.e. llyngyr, chwain a throgod), rhaid trin cŵn bach yn syth a chofnodi hyn yn eu cofnod iechyd unigol.**
- 15 Dylai'r milfeddyg roi pob brechiad ac ardystio hynny.



## RHAN 5: MAGU

- 1 Os oes angen cludo torllwyth o gŵn bach cyn eu diddychu dylent deithio gyda'i gilydd.
- 2 Dylai'r magu fod â'r nod o'u cael yn filgwn rasio llwyddiannus, ond hefyd eu paratoi ar gyfer trosglwyddo i fod yn anifeiliaid anwes, ar ôl eu paratoi'n briodol ar gyfer ymddeol ac ailgartrefu fel yr amlinellir yn y Cod hwn.
- 3 **O dair wythnos oed ymlaen, rhaid cyflwyno cŵn bach yn ofalus ac yn gadarnhaol i ddiwyddiadau y maent yn debygol o ddod ar eu traws yn ystod eu bywydau fel oedolion, mewn cenedl rasio a thraciaid ac ar ôl ymddeol.** Dylai'r rhain gynnwys gwahanol arwynebau, gwisgo coler a safnffrwyng a cherdded ar dennyn; cael eu gwahanu oddi wrth eu torllwyth (yng nghwmni hyfforddwr); cyfleusterau rasio a hyfforddi safonol gan gynnwys blychau cychwyn; gwahanol amgylcheddau (e.e. parciau, ardaloedd siopa, meysydd chwaraeon lleol); teithio mewn ceir a faniau; brwsio eu cotiau a thrin eu cyrff, brwsio dannedd; pobl eraill heblaw am eu hyfforddwr arferol, cŵn a bridiau eraill. Dylid cyflwyno'r rhain oll yn raddol ac yn araf, ar gyflymder sy'n addas i'r ci bach unigol.
- 4 Ni ddylid byth roi profiadau i gŵn bach i'r fath raddau eu bod yn dangos ofn a phryder.
- 5 Ni ddylid byth roi cŵn bach mewn safnffrwyng ar unrhyw adeg, ac eithrio fel rhan o raglen ymgyfarwyddo neu ymgynffino â llety fel y manylir yng Nghynllun Lles a Rheoli'r sefydliad.
- 6 **Rhaid peidio â gwahanu milgwn yn barhaol oddi wrth eu mam cyn eu bod yn saith wythnos oed** ac ni ddylid gwneud hyn cyn wyth wythnos oed oni bai bod iechyd y cŵn bach mewn perygl neu fod y filiast yn dangos arwyddion o straen. Dylid gofyn am gyngor gan filfeddyg os oes unrhyw bryderon am les y cŵn bach neu'r fam.
- 7 Os yw cŵn bach i gael eu magu ar yr un safle, argymhellir bod y rhai o'r un dorllwyth yn cael eu cadw gyda'i gilydd gyda'u mam nes eu bod yn 12 wythnos oed.
- 8 Dylid monitro cŵn bach yn aml ac yn fanwl, o leiaf bob pedair awr, os cânt eu cadw gyda'i gilydd ac os sylwir ar unrhyw ymladd, bwlio neu ganlyniadau lles niweidiol eraill, dylid eu gwahanu.
- 9 **Rhaid i'r man magu bob amser amddiffyn rhag tywydd garw, rhag yr haul, oerfel a glaw.**
- 10 **Rhaid darparu tegan a gemau i gŵn bach a chyfleoedd i'w hysgogi'n feddyliol.**
- 11 **Rhaid i gŵn bach gael mynediad i fannau lle gallant redeg a chwarae oddi ar dennyn bob dydd.** Hyd nes y bydd cŵn bach o oedran priodol i gerdded ar dennyn, dylent gael o leiaf bedwar cyfle i gymryd rhan mewn chwarae ac ymwneud â phobl yn ystod y dydd.
- 12 **Rhaid darparu cyfleoedd hefyd i gŵn bach gymdeithasu â chŵn eraill yn ogystal ag amrywiaeth o bobl ac anifeiliaid eraill, er mwyn iddynt ddatblygu'n gŵn hapus sy'n addasu'n dda.** Dylid eu cyflwyno i amrywiaeth eang o bobl gan gynnwys gwahanol oedranau, rhywiau ac ethnigrwydd yn ogystal â phobl yn gwisgo amrywiaeth o ddillad e.e. helmedau, sbectol a hetiau.
- 13 O 12 wythnos oed ymlaen, dylid cyflwyno milgwn fwyfwy yn raddol i lety tebyg i ble y byddant yn byw yn ddiweddarach, gan gynnwys os yw'n briodol, eu gwahanu oddi wrth gŵn eraill.
- 14 Os ydynt mewn llety dan do, dylid rhoi amser toiled i filgwn bob dwy i dair awr er mwyn magu cynnefindra â threfn cenedl rasio.
- 15 Mae ymgynffino yn raddol â cherbydau yn hanfodol i leihau straen eu cludo maes o law. Dylid dechrau hyn erbyn 14 wythnos oed a'i barhau fel bod y milgi wedi arfer cael ei gludo erbyn yr amser y bydd yn mynd i'w ysgol gyntaf neu'n cael ei allforio.
- 16 Os canfyddir wrth ei fagu fod gan unrhyw gi bach ddiffyg neu nam etifeddol, dylid datblygu cynllun ysbaddu a gwerthu neu ailgartrefu ar

*y cyd â milfeddyg a dylai'r perchnogion ac unrhyw ddarpar brynwyr gael gwybod yn llawn am holl fanylion y nam etifeddol a'r effeithiau tebygol ar y milgi.*

**17** *Dylid bwydo milgwn rhwng pedwar a chwe mis oed o leiaf ddwywaith y dydd â diet sy'n gytbwys o ran maeth.*





## RHAN 6: HYFFORDDI A DYSGU

- 1 Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw milgwn yn erlid nac yn ymosod ar unrhyw anifeiliaid byw.**
- 2 Rhaid peidio byth â defnyddio anifeiliaid byw wrth hyfforddi milgwn rasio.**
- 3 Ni ddylid defnyddio rhannau anifeiliaid sydd wedi marw wrth hyfforddi milgwn rasio.*
- 4 Dylai abwyd a ddefnyddir i hyfforddi milgwn gael ei wneud o ddeunydd synthetig yn unig ac ni ddylai ddeillio o anifeiliaid.*



Llun: AWWW

## RHAN 7: GWERTHU MILGWN

- 1 Dylid rhoi'r holl fanylion cofrestru i brynwyr.*
- 2 Ni ddylid gwerthu milgwn oni bai fod gan y ddwy ochr gyfeiriadau llawn a manylion cyswllt ei gilydd.*
- 3 Os ydynt i'w gwerthu mewn treial gwerthu, dylai milfeddyg roi archwiliad i gŵn cyn ac ar ôl y treial a datgan eu bod yn ffit i'w gwerthu.*
- 4 Os cânt eu mewnforio cyn eu gwerthu (e.e. o lwerddon), argymhellir bod cŵn yn cael eu harchwilio a'u datgan yn ffit gan filfeddyg cyn eu prynu.*



Llun: AWWW

## RHAN 8: CLUDO MILGWN

O ran cŵn a ddefnyddir yn y diwydiant rasio, mae'n debygol y bydd y gyfraith yn ystyried y rhan fwyaf o'u teithiau cludo yn rhai 'masnachol' ac o ganlyniad yn ddarostyngedig i Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007<sup>15</sup> - yn ogystal ag i ddeddfwriaeth yr UE rhif 1/2005<sup>16</sup>. Dylai'r amodau a awgrymir yn y canllawiau hyn helpu cludwyr i gydymffurfio â'r Gorchymyn uchod ac 1/2005 ond gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn: <https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid-wrth-gludo>

Dylai unrhyw un sy'n cludo mwy na dau filgi ar deithiau dros 65km (40 milltir) lenwi a dychwelyd ffurflen Awdurdodaeth Cludwyr Anifeiliaid. Gellir cael copïau yn uniongyrchol o wefan Llywodraeth Cymru.

- 1 Cyn cludo cŵn, dylid cadarnhau eu bod yn ffit ac yn iach ar gyfer y siwrnai a fwriadwyd, gan berson perthnasol sydd wedi'i hyfforddi'n gymwys.*
- 2 Rhaid cludo milgwn mewn ffordd nad yw'n achosi anaf na dioddefaint diangen iddynt.**
- 3 Dylai'r dulliau cludo atal y ci rhag dianc ac atal rhoi gormod o straen arno, yn ogystal â rhoi modd ei gludo yn yr amser byrraf yn ymarferol.*
- 4 Dylid osgoi cludo cŵn sydd mewn trallod, h.y. y rhai sy'n dangos arwyddion o ofn a phryder dwys neu hirfaith, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.*
- 5 Rhaid i'r bobl sy'n trin ac yn gafael yn y milgwn fod yn gymwys a rhaid iddynt beidio â defnyddio dulliau cosbi e.e. gweiddi, taro neu ddulliau eraill sy'n debygol o achosi ofn, anaf neu ddioddefaint.**
- 6 Rhaid cludo milgwn mewn ffordd sy'n atal tynnu sylw'r gyrrwr ac yn lleihau'r risg o anaf iddo'i hun, i'r milgwn neu eraill yn y cerbyd.**
- 7 Rhaid i gŵn fod wedi'u cau i mewn yn ddiogel ac yn gyfforddus yn ystod taith.** Os cânt eu cludo ym mhrif gorff cerbyd, dylid cael gwregys neu harnais addas ar y cŵn.
- 8 Ni ddylid cludo cŵn sydd wedi'u hanafu ac/neu eu heintio (ac eithrio mân salwch neu anaf fel y'u pennir gan staff cymwys a hyfforddedig), heblaw am eu cludo i filfeddygfa neu o dan gyngor milfeddyg.*
- 9 Dylai cerbydau cludo fedru gadael i anifeiliaid sydd wedi'u hanafu orwedd yn ddiogel.*
- 10 Rhaid cynllunio siwrneiau hir i gael yr effaith leiaf bosibl ar drefn bwydo cŵn. Rhaid peidio â bwydo cŵn yn union cyn teithio.**
- 11 Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid bwydo cŵn 2-4 awr cyn siwrnai a dylid rhoi ymarfer corff iddynt i'w hysgogi i'w ysgarthu ychydig cyn eu llwytho, ac ar ôl eu dadlwytho.*
- 12 Rhaid darparu dŵr a chyfleoedd toiled yn rheolaidd.** Dylai teithiau ar y ffordd gynnwys seibiannau o leiaf bob tair awr, er mwyn rhoi modd archwilio'r cŵn, cynnig dŵr iddynt ac ni ddylid ailgychwyn am 30 munud wedyn, er mwyn caniatáu amser i amsugno'r dŵr. Dylid eu harchwilio'n amlach os cynghorir hynny gan filfeddyg.

<sup>15</sup> <https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid-wrth-gludo>

<sup>16</sup> <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/en/ALL/?uri=CELEX:32005R0001>

- 13** Os rhoddir ci mewn crât neu gawell, rhaid i hwn fod o faint digonol i adael i'r cŵn eistedd yn syth, gorwedd mewn ystum naturiol, sefyll a throï o gwmpas mewn ffordd naturiol heb gyffwrdd â'r strwythurau uwchben.
- 14** Dylai cratiau neu gewyll fod yn ddigon mawr i gludo milgi wedi'i anafu.
- 15** Dylai cŵn bob amser gael deunydd gwely (blancedi, dwfe neu ddeunydd gwely milfeddyg) os cânt eu cludo mewn crât neu gawell.
- 16** Dylid pob cerbyd cludo, cewyll neu ôl-gerbyd a ddefnyddir i gludo milgwn fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu o ddefnyddiau sy'n lleihau'r perygl o anafu'r ci, e.e. dim ymylon miniog nac arwynebau sgraffellog.
- 17** Rhaid peidio â gadael cŵn mewn cerbyd lle gall y tymheredd fod yn beryglus iddynt.
- 18** Dylai unrhyw gerbyd a ddefnyddir i gludo cŵn fod â'r rheolaeth tymheredd a'r awyru cywir i sicrhau fod y tymheredd yn aros rhwng 10°C a 26°C a bod y cŵn yn parhau'n gyfforddus yn ystod y daith beth bynnag yw'r tymheredd y tu allan.
- 19** Ni ddylid llwytho milgwn ar ôl rasio, hyfforddi neu dreialu am o leiaf 15 munud, er mwyn gadael iddynt oeri.
- 20** Os cludir cŵn yn yr awyr, rhaid dilyn rheolau IATA<sup>17</sup>.



Llun: Debra Allen

<sup>17</sup> <https://www.iata.org/publications/store/Pages/live-animals-regulations.aspx>

## RHAN 9: Y CENEL Y BYDD MILGWN YN BYW YNDDO WRTH HYFFORDDI NEU LETY ARALL IDDYNT FYW YNDDO

### a. Llety ac amgylchedd byw

- 1 Rhaid i'r llety byw fod yn gadarn ei strwythur a rhaid iddo amddiffyn rhag y tywydd. Rhaid iddo fod yn ddiogel, yn gadarn a heb beryglon.
- 2 Dylid sicrhau nad oes unrhyw beryglon tagu posibl ym mhob cenel/llety ac mewn mannau lle caiff cŵn eu gadael heb oruchwyliaeth.
- 3 Rhaid peidio â defnyddio cewyll neu gratiau teithio fel mannau i'r cŵn fyw ynddynt.

### Cynllun y llety

- 4 Rhaid i'r man y mae'r milgi yn byw ynddo gynnwys ardal gysgu ar wahân ac ardal weithgarwch.
- 5 Dylai dyluniad a chynllun y llety adael i'r cŵn eu hunain reoli faint maent yn ei weld o'u

hamgylchedd a'u cysylltiad gweledol â chŵn eraill. Gellir cyflawni hyn mewn dwy ffordd: (i) darparu ardaloedd y gall y ci symud iddynt er mwyn osgoi cyswllt gweledol â chŵn eraill, a (ii) darparu mannau uchel, e.e. platfform i alluogi cyswllt gweledol.

- 6 Dylai cynllun llety'r cŵn sicrhau tarfu ar y nifer lleiaf â phosibl o gŵn pan fo staff yn symud unrhyw un ohonynt a dylai sicrhau diogelwch staff wrth fynd heibio i gŵn eraill gyda chi ar dennyn. Er enghraifft, gall staff geisio tarfu cyn lleied â phosibl ar y cŵn eraill trwy ddewis llwybr sy'n mynd heibio'r nifer lleiaf o gŵn.
- 7 Dylai offer trydanol (e.e. gwresogyddion a lampau) gael eu cynnal a'u cadw'n dda a dylent bob amser fod allan o gyrraedd y cŵn.

### Maint y llety

- 8 Ar y lleiaf, dylai maint y mannau a ddefnyddir i gadw milgwn fod fel a ganlyn:

Nifer y cŵn sy'n oedolion	Os oes gan gŵn fynediad di-dor yn ystod oriau golau dydd i ardal ymarfer corff gyfagos	Os nad oes gan gŵn fynediad di-dor yn ystod oriau golau dydd i ardal ymarfer corff gyfagos
1	4.5 m <sup>2</sup>	6.5 m <sup>2</sup>
2	6.0 m <sup>2</sup>	8.5 m <sup>2</sup>

- 9 Yn ogystal â bod y maint lleiaf, rhaid i'r man byw fod yn ddigon mawr i ganiatáu i bob ci allu cerdded, troi o gwmpas ac ysgwyd ei gynffon heb gyffwrdd yr ochrau, gallu ymestyn, a gorwedd lawr ar ei hyd.
- 10 *Dylai uchder y to (y tu allan i'r man cysgu) ganiatáu i filgwn sefyll ar eu coesau ôl gyda'u pawennau blaen wedi'u codi uwch eu pennau.*
- 11 Wrth gartrefu mwy nag un ci mewn un uned, rhaid i'r llety fod yn ddigon mawr i ganiatáu digon o adnoddau i osgoi cystadlu a chreu monopoli yn y cenel, e.e. mae hyn yn cynnwys digon o guddfannau, llwyfannau, gwelyau, teganau ac ati ar gyfer pob ci.

### Deunydd gwely/dodrefn

- 12 Rhaid i gŵn bob amser gael mynediad i guddfau ddiogel lle gallant ddianc iddo os ydynt yn teimlo'n ofnus. Gallai hyn fod yr ardal gysgu mewn cenel, crât agored neu o dan blatfform cysgu.
- 13 Rhaid i bob ci gael ei le cyfforddus ei hun sydd â deunydd gwely glân lle gallant fynd iddo i orffwys a chysgu ac mae'n rhaid iddo fod mewn man tawel. Rhaid i'r man gorffwys a chysgu fod yn ddigon mawr i'r milgi orwedd lawr ac ymestyn ar ei hyd.
- 14 Rhaid darparu deunydd gwely i bob ci a dylai fod digon ohono i wneud yr arwyneb yn gynnes ac yn feddal heb fod yn annifyr a rhoi cysuron cyhyrysgerbydol a gwres.
- 15 Rhaid glanhau'r deunydd gwely yn rheolaidd i'w gadw'n lân, yn sych a heb barasitiaid a dylai fod yn ddeunydd sy'n hawdd ei olchi neu ei daflu.
- 16 *Pan gaiff y deunydd gwely ei ddinistrio dylid rhoi un newydd yn ei le.*

### Golau

- 17 Rhaid bod digon o olau yn y lle byw, i sicrhau bod y gofalyr yn gallu gweld pob man.

- 18 *Dylai'r holl lety roi modd i'r milgwn gael mynediad di-dor i olau naturiol yn ystod y dydd. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid trefnu system cylch golau/tywyllwch rhagweladwy i gŵn sy'n cyfateb i ddydd a nos ar y tu allan.*

### Tymheredd

- 19 Ar bob adeg, rhaid bod rhyw ran o'r man byw y mae modd i'r ci deimlo tymhereddau uwch na 10°C (50°F) ac islaw 26°C (79°F). Os oes angen rhaid darparu inswleiddio, gwresogi ac/neu system awyru/oeri awtomatig er mwyn cyflawni hyn.
- 20 Rhaid peidio â chaethiwo cŵn i ardaloedd lle gall amodau'r hinsawdd beri gofid iddynt.
- 21 *Dylid monitro cŵn i weld a ydynt yn rhy boeth neu'n rhy oer. Os yw ci unigol yn dangos arwyddion o fethu dioddef gwres neu oerfel, mae angen cymryd camau i sicrhau eu lles.*

### Sŵn

- 22 *Dylid ystyried a gweithredu mesurau i osgoi lefelau sŵn uchel. Er enghraifft, osgoi defnyddio powlenni metel, lleihau cymaint ag y bod modd cŵn eraill yn aflonyddu.*
- 23 *Os oes llawer o sŵn amgylchynol, yna dylai'r adeilad neu'r cenel gael ei inswleiddio ar gyfer sŵn.*

24 Gall cerddoriaeth uchel beri straen ac felly dylid ei hosgoi ond gall cerddoriaeth gefndir fwyn, e.e. cerddoriaeth glasurol, fod yn fuddiol ac felly argymhellir darparu hyn.

### Awyru/lleithder

25 Dylai'r awyru sydd ym mhob cenel dan do i gŵn ddarparu digon o awyr iach o ansawdd priodol a dylai'r awyru hefyd gostwng lefelau a lledaeniad arogleuon, nwyon gwenwynig (er enghraifft ni ddylai amonia fod yn fwy na 5ppm), llwch a chyfryngau heintus o unrhyw fath, yn ogystal â chael gwared â gwres a gormod o leithder.

26 Pan gaiff milgwn eu cartrefu mewn man cwbl gaeëdig, ac awyru gwthiedig yw'r unig fath o symudiad aer, dylid cael o leiaf wyth newid bob awr.

27 Dylai'r system awyru gael ei dylunio i leihau drafftiau niweidiol ac aflonyddwch sŵn.

### Ardaloedd tu allan

28 Rhaid i ardaloedd yn yr awyr agored fod yn ddiogel, heb beryglon ynddynt a dylent fod i ffwrdd o'u prif lety.

29 Rhaid i'r ffensys yr ardaloedd yn yr awyr agored fod yn ddigon uchel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda i atal milgwn rhag dianc nac anafu eu hunain a dylai atal cyswllt anniogel rhwng milgwn mewn ardaloedd cyffiniol.

30 Rhaid glanhau'r ardaloedd awyr agored o'r holl faw cŵn o leiaf unwaith y dydd a dylid eu glanhau yn syth ar ôl symud y milgi(milgwn) a chyn gadael milgwn newydd i'r rhan honno.

31 Dylid draenio ardaloedd yn yr awyr agored yn briodol er mwyn atal hylif rhag cronni.

32 Pryd bynnag y bo modd, dylai staff hyfforddedig a chymwys yn ogystal â chŵn eraill fod yn bresennol pan fydd cŵn yn cael mynd allan i ardal awyr agored, gan y bydd hyn yn annog cŵn i archwilio, rhyngweithio a chwarae.

33 Rhaid peidio â chaethiwo anifeiliaid i ardaloedd yn yr awyr agored o dan amodau hinsoddol a allai beri gofid iddynt. Mae angen iddynt gael mynediad cyson at gysgod a lloches er mwyn iddynt fedru osgoi glaw, gwynt neu olau haul cryf ac mae angen mynediad cyson at ddŵr glân, ffres.

34 Dylai darnau â glaswellt fod yn rhan o ardal awyr agored mawr, ond dylid eu cynnal yn ddigonol i leihau'r risg o glefyd a pharasitiaid ac ni ddylid caniatáu iddynt ddirywio yn bridd noeth. Mae darnau sydd â thywod yn dderbyniol, yn enwedig ar gyfer y gaeaf. Os defnyddir glaswellt artiffisial, dylid ei gynnal a'i gadw'n dda i sicrhau nad yw'n mynd yn berygl.

### b. Diet

#### Bwyd a dŵr

1 Rhaid bwydo pob milgi unwaith y dydd a dylid ei fwydo ddwywaith y dydd oni cheir cyngor gwahanol.

2 Rhaid darparu digon o fwyd sydd o ansawdd maeth digonol, sy'n briodol i fodloni'r gofynion dyddiol ar gyfer cyflwr, iechyd, statws atgenhedlu, pwysau, lefel gweithgarwch, oedran a maint y milgi.

3 Rhaid monitro'n ddyddiol faint o fwyd y mae'r cŵn yn ei fwyta a dylid cofnodi unrhyw newid mewn arferion bwyta. Dylid gofyn am gyngor gan filfeddyg os yw cynnydd neu leihad mewn archwaeth am fwyd yn parhau.

4 Pan fo cŵn yn awchu'n fawr am fwyd am gyfnod sy'n hirach na 24 awr dylid eu monitro ac os oes pryder(on) dylid gofyn am gyngor milfeddyg.

5 Rhaid monitro cyflwr/pwysau corff y cŵn yn rheolaidd (dylid gwneud hyn bob wythnos ar y lleiaf) a chyflenwi bwyd mewn symiau digonol i gynnal cyflwr corff priodol yn unol â Siart Sgôr Cyflwr y Corff sydd yn Atodiad A y Cod hwn. Os oes ansicrwydd ynghylch

*meintiau a mathau o fwyd i'w fwydo, dylid gofyn am gyngor milfeddyg.*

*brys megis salwch (i'r Person â Chyfrifoldeb), damwain neu argyfwng ar raddfa fawr.*

- 6 Rhaid i filfeddyg weld ci sy'n colli neu'n ennill pwysau yn sylweddol a'u trin fel y bo'n briodol.**
- 7 Rhaid i filgwn gael mynediad parhaus at gyflenwad digonol o ddŵr glân ffres oni bai bod milfeddyg yn cynghori fel arall. Rhaid i hwn fod mewn cynhwysydd glân ac addas.**
- 8 Rhaid gwirio bob dydd faint o ddŵr mae'r cŵn yn ei yfed** *a dylid cael cyngor gan filfeddyg os yw'n yfed gormod neu ddim digon.*
- 9 Dylid darparu bwyd mewn cynhwysydd bwyd glân, ac eithrio wrth ddarparu bwyd fel elfen gyfoethogi mewn pêl ddanteithion neu degan cnoi/bwyd, neu wrth roi esgyrn.*
- 10 Dylid gallu glanhau a diheintio cynwysyddion bwyd ac yfed, a dylid gwneud hyn yn rheolaidd.*
- 11 Ni ddylid bwydo offal amrwd i gŵn oni bai fod y milfeddyg yn gwybod am hynny, ei fod wedi'i gofnodi yn y Cynllun Lles a Rheoli a'i fod yn digwydd ar y cyd â rhaglen gyflawn i gael gwared â llyngyr.*
- 12 Dylid symud yr holl fwyd cyn y sesiwn bwydo nesaf.*
- 13 Dylid storio bwyd yn briodol mewn cynwysyddion wedi'u selio, yn ddiogel rhag fermin, yn oer ac yn sych neu wedi'u cadw mewn oergell os yw'n briodol yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.*
- 14 Rhaid bod cyfleusterau addas a hylan ar gyfer storio a pharatoi bwyd.**
- 15 Rhaid bod dŵr poeth ac oer ar gael ar gyfer golchi offer a chynwysyddion bwyta ac yfed.**
- 16 Os yw cig ffres a chig wedi'i goginio yn cael eu storio, rhaid defnyddio cyfleusterau oergell.**
- 17 Dylid cael digon o gyflenwad bwyd ar y safle i bara am bum niwrnod, rhag ofn y ceir digwyddiad*

### Trefn fwydo

- 18 Rhaid peidio â bwydo cŵn â bwydydd y gwyddys eu bod yn wenwynig megis grawnwin, rhesins a nionod.**
- 19 Ni ddylid rhoi llaeth i gŵn fel rhan reolaidd o'u diet.*
- 20 Dylid cynllunio eu diet i osgoi bwydydd sydd yn llawn tannin neu halen, er enghraifft, te a greffi.*
- 21 Adroddir bod milgwn yn tueddu i ddiodesol bol chwyddedig (gastro dilatation-volvulus). Credir bod bwydo prydau llai, yn amlach yn lleihau'r risg hon, yn ogystal â bwydo o gynhwysydd bwyd sydd wedi'i godi o'r llawr ac ni ddylai'r ci wneud ymarfer corff yn syth ar ôl bwyta. Argymhellir yr arferion bwydo hyn.*
- 22 Dylid cyflwyno unrhyw fwyd newydd yn raddol, dros wythnos o leiaf, er mwyn rhoi modd i'r ci addasu iddo.*

### Ychwanegiadau a sylweddau

- 23 Ni ddylid byth roi sylweddau i gŵn gyda'r bwriad iddynt gael effeithiau tymor byr ar eu gallu i rasio.*
- 24 Dim ond yn ôl cyfarwyddyd milfeddyg y dylid rhoi ychwanegiadau a sylweddau sydd â'r nod o wella iechyd a sicrhau diet cytbwys, a dylid rhoi manylion y rhain yn y Cynllun Lles a Rheoli.*
- 25 Dylai unrhyw ychwanegiadau a sylweddau gael eu labelu'n glir ac yn unigol a'u cadw yn eu cynhwysydd neu eu pecynnau gwreiddiol. Dylid cadw unrhyw gynwysyddion sydd wedi'u difrodi, ac/neu eu labeli, a'u cadw gyda'r cynnyrch sydd wedi tywallt neu ei ailstorio.*
- 26 Dylid storio a chael gwared ar yr holl ychwanegiadau a sylweddau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes yn unol â gofynion deddfwriaethol perthnasol.*



27 Dylai'r Person â Chyfrifoldeb gadw cofnodion o'r holl ychwanegiadau a sylweddau a roddir i bob milgi, a dylai milfeddyg lofnodi'r cofnodion hyn o leiaf unwaith y flwyddyn.

28 Dylai cŵn gael mynediad at wrthrychau addas i'w cnoi i gynorthwyo iechyd eu dannedd.

29 Dim ond yn sgil cyngor milfeddyg a thrwy gynhyrchion a gymeradwyir gan filfeddyg y dylid atal gast rhag mynd i wres/cwna, a dylid manylu ar brocololau yn y Cynllun Lles a Rheoli.

### c. Ymddygiad

#### Ymarfer Corff

- 1 **Rhaid rhoi cyfle i gŵn gael ymarfer corff i ffwrdd o'r man maent yn byw ynddo o leiaf unwaith y dydd.** Dylai hyn fod am gyfanswm o hanner awr ar y lleiaf ac argymhellir awr. Gall hyn fod oddi ar dennyn mewn ardal awyr agored neu ar dennyn.
- 2 **Os yw cŵn yn cael eu cadw tu mewn, rhaid iddynt gael mynediad i le priodol y tu allan, i ffwrdd o'u man gorffwyso a bwydo, man y gallant ei ddefnyddio fel toiled yn rheolaidd a dylai hyn fod o leiaf bob pedair awr..**

#### Teganau a bwyd cyfoethogi

- 3 **Rhaid rhoi teganau ac/neu fwyd cyfoethogi priodol i gŵn oni bai bod cyngor milfeddyg yn nodi fel arall.**
- 4 **Rhaid gwirio'r eitemau bob dydd i sicrhau eu bod yn lân, yn ddiogel a'u newid pan fo angen.**
- 5 *Dylid sicrhau eitemau cyfoethogi bob dydd a dylai annog ymddygiad naturiol ac atal ymddygiad annormal rhag datblygu.*

#### Monitro ymddygiad

- 6 **Rhaid i staff fod yn gyfarwydd ag arwyddion o straen, ofn a phryder, ac yn gallu eu**

**hadnabod, a phenderfynu a yw lles ci yn dda neu'n wael.**

- 7 **Rhaid monitro ymddygiad pob ci yn ddyddiol.** Dylid cofnodi a gweithredu ar newidiadau mewn ymddygiad sy'n awgrymu dioddefaint, straen, ofn, pryder ac ymddygiad ymosodol (gweler isod). Os caiff yr ymddygiadau hyn eu hailadrodd neu os ydynt yn digwydd dros gyfnod, gallant awgrymu bod perygl i les y ci.
- 8 **Gall yr ymddygiadau a restrir isod hefyd fod yn arwyddion o straen, poen neu salwch. Mewn achosion fel y rhain mae'n rhaid gofyn am gyngor milfeddyg ac os cynghorir hynny rhaid cael cyngor arbenigwr clinigol ar ymddygiad anifeiliaid sydd â chymwysterau addas.**
  - i) cyrcydu /swatio – y corff yn crymu ac yn plygu'n isel;
  - ii) ysgwyd / crynu / ysgrytian – y cyhyrau'n crynu'n gyflym heb reolaeth, fel petai'n oer;
  - iii) cynffon wedi'i chuddio – y gynffon wedi'i thynnu'n isel rhwng y coesau;
  - iv) clustiau'n ôl – adain y clustiau yn fflat wrth ochrau'r pen;
  - v) osgoi – ci yn cilio o ysgogiadau a chynryfiadau;
  - vi) ymddieithrio / colli ffocws – ddim yn ymateb i ysgogiadau sydd fel arfer yn rhoi boddhad;
  - vii) rhewi mewn ymateb i ysgogiad – yn sydyn yn peidio â symud wrth ymateb i ddigwyddiad, gwrthrych neu berson;
  - viii) gor-wyliadwriaeth – yn hynod wylidwrus ac yn barod i ymateb i berygl posibl;
  - ix) tensiwn yn y cyhyrau – i'w weld fel petai'n dynn a methu ymlacio;
  - x) ei dafod allan ac yn anadlu'n drwm pan nad yw'n boeth – anadlu'n gyflym â cheg

agored gyda'r tafod yn hongian allan o'r geg;

xi) dylyfu gen – agor y geg yn llawn gyda'r clustiau yn ôl wrth anadlu i mewn a chau'r geg wrth anadlu allan;

xii) rhincian dannedd – y geg yn agor ac yn cau'n gyflym gyda'r ên uchaf ac isaf yn cysylltu â'i gilydd;

xiii) clecian gwefusau – gallwch glywed y gwefusau uchaf ac isaf yn cysylltu;

xiv) llyfu gwefusau – gwthio'r tafod allan o'r geg i lyfu'r trwyn neu ochr y geg;

xv) chwyddo'r bochau – y ci yn chwythu aer i ochr ei wyneb i wneud ei fochau'n dew;

xvi) kannwyll y llygaid yn fawr a ddim yn ymateb – canol du y llygad yn fwy na'r arfer ac yn methu â newid maint;

xvii) glafoerio – driblan yn drwm nes bod y poer yn weladwy o amgylch y geg;

xviii) codi pawen – codi un o'i goesau blaen o'r ddaear;

xix) bwyta carthion – bwyta ei faw ei hun;

xx) cnoi'r cw b a'r adeilad – defnyddio'i ddannedd i hogi/malu gwrthrych (e.e. deunydd gwely neu fariau).

9 Os yw ci yn datblygu ymddygiadau ailadroddus (e.e. twtio a llyfu ei hun yn ormodol, cerdded yn ôl ymlaen, yn mynd rownd a rownd mewn cylchoedd, llyfu'r waliau, cyfarth neu swian am hir), yna dylid ymdrechu i newid ei amgylchedd i ychwanegu diddordeb a lleihau'r ymddygiad.

10 Pan fydd sawl ci mewn sefydliad yn dangos arwyddion o straen, er enghraifft ymddygiadau ailadroddus, dylid adolygu trefn ac arferion y llety a hwsmonaeth y sefydliad i geisio lliniaru hyn.

### Trin, hyfforddi a dyfeisiau hyfforddi

11 Rhaid i bawb sy'n gyfrifol am filgwn ymwneud â nhw yn garedig, yn dyner a chyson. Rhaid peidio â gadael i bobl ddychryn, codi ofn na phoeni cŵn.

12 Mae dyfeisiau sioc drydanol yn anghyfreithlon yng Nghymru ac ni ddylid eu defnyddio.

13 Rhaid i ddulliau ac offer hyfforddi amddiffyn cŵn rhag poen, dioddefaint ac anaf.

14 Wrth hyfforddi rhaid osgoi dulliau sy'n seiliedig ar rywbeth annymunol gan gynnwys cadwyni tagu a choleri chwistrellu, gan yn hytrach ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar wobrwyo.

15 Rhaid i offer ar gyfer trin a hyfforddi'r ci ei ffitio'n gyfforddus a pheidio â rhwbio neu achosi poen.

### Hwsmonaeth

16 Rhaid i gŵn bob amser gael mynediad i ardal sych, glân a dylent allu osgoi lloriau gwlyb ar ôl eu glanhau. Dylai'r gwresogi a'r llif aer fod yn ddigonol i roi modd i loriau sychu'n gyflym.

17 Dylid symud cŵn o'u cenedl er mwyn glanhau'r lle yn drylwyr a hynny'n cynnwys chwistrellu dŵr drosto.

### d. Cwmnïaeth

#### Cadw cŵn mewn grŵp neu ar wahân

1 Pryd bynnag y bo modd, dylid cadw cŵn mewn parau neu grwpiau bychain.

2 Pan gedwir cŵn gyda'i gilydd rhaid iddynt gyd-dynnu. Bydd rhai mân arwyddion dros dro o ofn ac/neu ymddygiad ymosodol yn digwydd wrth eu rhoi gyda'i gilydd ar y dechrau. Rhaid peidio â chartrefu cŵn gyda'i gilydd os ydynt yn dangos arwyddion difrifol neu barhaus o ymddygiad ymosodol

**tuag at gŵn eraill (e.e. brathu, erlid, eu gwthio a'u dal i lawr, neu eu rhwystro rhag symud), neu rai sy'n osgoi ac/neu yn ofni cŵn eraill.**

- 3 *Dylai penderfyniadau ynghylch pa gŵn y gellid eu cartrefu fel pâr neu grŵp gael eu gwneud gan staff cymwys addas.*
- 4 *Dylid cyflwyno parau newydd yn raddol o dan oruchwyliaeth staff cymwys mewn amgylchedd niwtral lle gallant osgoi ei gilydd os ydynt yn dewis.*
- 5 **Rhaid i gŵn a gedwir mewn pâr ac mewn grŵp gael digon o le ac adnoddau digonol i leihau cystadleuaeth a monopoli ac i allu symud oddi wrth ei gilydd os byddent yn dewis hynny.**
- 6 **Yn ystod cyfnodau heb oruchwyliaeth, rhaid i'r milgwn fod yn ddiogel rhag ymosodiad, straen neu anaf gan filgwn eraill, anifeiliaid neu bobl.**
- 7 *Fel egwyddor gyffredinol, ni ddylid rhoi cŵn mewn safnffrwyd mewn cenel er mwyn hwyluso cadw ci mewn pâr neu grŵp. Efallai y bydd amgylchiadau penodol lle mae angen iddynt fod mewn safnffrwyd pan fyddant heb oruchwyliaeth am gyfnod cyfyngedig e.e. dros nos. Ni ddylai hyn fod yn fwy na thridiau. Ni ddylid defnyddio safnffrwyd o dan unrhyw amgylchiadau fel strategaeth hirdymor i gadw cŵn gyda'i gilydd.*
- 8 **Rhaid i gŵn na ellir eu cartrefu â chŵn eraill oherwydd pryderon ymddygiad ac sy'n cael eu cadw ar eu pennau eu hunain fod â dulliau cyfoethogi amgen gan gynnwys (os yw'n briodol) cyswllt dynol priodol ychwanegol uwchlaw'r hyn a nodwyd yn y paragraff ar gwmni dynol.**
- 9 **Ar gyfer cŵn sy'n gwerthfawrogi cwmni ei gilydd, ond pan fo'r llety'n anaddas ar gyfer eu cadw mewn pâr neu grŵp, rhaid darparu cyfleoedd rheolaidd i ymwneud ac ymarfer â chŵn eraill.**

10 *Ni ddylid cadw milieist sydd yn cwana neu'n agos at y cyfnod hwnnw, mewn cyswllt arogleuol â milgwn gwrywaidd sy'n naw mis neu hŷn.*

### **Defnyddio safnffrwyd (muzzle)**

- 11 *Dylid nodi protocolau defnyddio safnffrwyd yn y Cynllun Lles a Rheoli.*
- 12 *Dylai unrhyw safnffrwyd a ddefnyddir fod yn ffitio'n ddiogel a chyfforddus ac yn gadael i gŵn yfed, chwydu ac anadlu â'i dafod allan.*
- 13 **Mae safnffrwyd basged yn dderbyniol, ond rhaid peidio â defnyddio mathau eraill gan eu bod yn atal yfed ac anadlu â'u tafod allan sy'n hanfodol ar gyfer hydradiad a rheoleiddio tymheredd.**
- 14 *Dylid cyflwyno safnffrwyd mewn ffordd raddol a chadarnhaol ac yn ddelfrydol fel rhan o gynefino yn ystod y magu (gweler Rhan 5).*
- 15 *Ni ddylid gosod safnffrwyd ar filgwn am fwy na 30 munud ar y tro heblaw:*
  - i) *o dan gyfarwyddyd llym, ysgrifenedig, milfeddyg;*
  - ii) *fel rhan o raglen ymgyfarwyddo â llety fel y manylir yng Nghynllun Lles a Rheoli'r sefydliad.*
- 16 *Dylid adolygu unrhyw gyfarwyddyd gan filfeddyg ynghylch defnyddio safnffrwyd ar gi penodol o leiaf unwaith y flwyddyn.*

### **Cwmni pobl**

- 17 **Rhaid i gŵn gael digon o gyfleoedd i gael cysylltiad â phobl a hynny yn ddyddiol ar y lleiaf. Gall hyn gynnwys brwsio a gofalu, ymarfer corff, chwarae, mwytho a hyfforddi ond ar lefel sy'n addas i'r ci unigol.**
- 18 **Rhaid i'r holl staff ymdrechu i gael perthynas gadarnhaol â phob ci ac osgoi ymwneud yn negyddol â nhw.**

- 19 Rhaid trin cŵn mewn ffordd garedig, yn dyner a chadarnhaol. *Ni ddylid gweiddi arnynt, eu gwthio na'u taro.*
- 20 Rhaid i staff fedru adnabod arwyddion cŵn sy'n ofnus ac yn bryderus yn ogystal â'r rhai sy'n hamddenol ac yn ddigynnwrf.

#### Hyfforddiant/cymhwysedd staff

- 21 Rhaid bod digon o bersonél ar gael bob dydd i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion lles beunyddiol y milgwn.
- 22 *Dylai'r holl staff sy'n gyfrifol am ofalu am filgwn gwblhau hyfforddiant ac addysg briodol i fod yn gymwys wrth drin milgwn ac i feithrin y sgiliau ac/neu'r profiad sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r Cod hwn.*
- 23 *Hyd nes y bydd yr hyfforddiant gofynnol wedi'i gwblhau, dylai staff y sefydliad weithio dan oruchwyliaeth uniongyrchol unigolyn (unigolion) sydd â phrofiad ac/neu gymwysterau addas.*

#### e. Gofal iechyd

- 1 Rhaid i'r holl staff allu adnabod arwyddion a bod yn gyfarwydd â salwch, anaf ac afiechyd.
- 2 Rhaid cael cyngor milfeddyg yn syth os yw ci yn dangos arwyddion o afiechyd, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i'r rhain) syrthni, newid ymddygiad, arwyddion poen, tisian neu beswch drosodd a throsodd, methu anadlu, carthion rhydd (sy'n parhau am hir), rhwymedd neu anhawster pasio dŵr/wrin, chwydu neu ddolur rhydd, cloffni neu anallu i sefyll neu gerdded, rhannau'r corff yn gwaedu neu'n chwyddo, magu neu golli pwysau sylweddol mewn cyfnod byr, diffyg archwaeth bwyd, yfed yn fwy neu'n llai na'r arfer, chwyddo anarferol, edrych fel petai mewn poen, ffitiau neu'n cael trafferth sefyll, clwyfau, rhediad o'r clustiau neu'r llygaid, cosi neu lid, colli blew yn sylweddol neu'n anarferol, neu grafu ac ysgwyd y pen

drosodd a throsodd.

- 3 Rhaid i filgwn sydd wedi'u diagnosio â chlefyd deintyddol clinigol gael triniaeth ddeintyddol yn unol â chyfarwyddyd milfeddyg.
- 4 *Dylid cofnodi unrhyw broblemau iechyd a darparu tystiolaeth i'r swyddog arolygu bod cynllun triniaeth wedi'i lunio ar y cyd â milfeddyg a'i weithredu.*

#### Monitro iechyd

- 5 Rhaid i bob ci, ar y lleiaf, gael archwiliad gweledol bob dydd i chwilio am arwyddion salwch (gweler adran e. Gofal iechyd uchod) a dylid cael archwiliad corfforol.
- 6 Os canfyddir unrhyw arwyddion o broblemau iechyd sylweddol neu ymddygiad anarferol, rhaid cael cyngor gan filfeddyg yn syth. *Dylid cofnodi hyn yng nghofnod iechyd y ci.*
- 7 *Dylid gwirio bob dydd bod cŵn yn bwyta ac yn yfed, yn gallu ymgarthu a gwneud dŵr yn normal, yn gallu symud o gwmpas yn rhydd a heb boen, a bod eu croen, eu dannedd a'u côt mewn cyflwr normal.*
- 8 *Dylid cynnal archwiliadau iechyd bob wythnos a hynny'n cynnwys eu pwysu, asesu cyflwr y corff, archwilio cyflwr y dannedd a'r gôt.*
- 9 *Dylid cadw pob cofnod iechyd unigol am o leiaf blwyddyn.*
- 10 *Dylid monitro cysondeb ysgarthol yn ddyddiol ac os canfyddir ysgarthion rhydd, dylid newid y diet yn raddol, a dylid tynnu llidwyr posibl bob yn un i geisio lliniaru hyn, ac os bydd hynny'n aflwyddiannus, dylid holi milfeddyg.*

#### Gofal iechyd ataliol

- 11 Rhaid cytuno ar gynllun gofal iechyd ataliol a dylid ei ysgrifennu mewn ymgynghoriad â milfeddyg a dylai fod yn rhan o'r Cynllun Lles a Rheoli. *Dylai gynnwys brechu, rheoli parasitiaid mewnlol ac allanol, monitro pwysau a sgoriau*

cyflwr y corff. Dylid cofnodi hyn yng Nghynllun Lles a Rheoli'r sefydliad.

- 12 **Rhaid i bob sefydliad fod wedi'i gofrestru gyda milfeddygfa.**
- 13 *Dylai pob milgi gael archwiliad iechyd cyffredinol bob blwyddyn (gan gynnwys archwiliad deintyddol) gan filfeddyg (neu'n amlach yn ôl yr angen).*
- 14 **Rhaid cael rhaglen frechu gynhwysfawr, gan gynnwys brechu yn erbyn clefyd y cŵn (*canine distemper*), adenofirws, leptosbrosis a pharfofirws, ac yn ddefnyddol peswch cenel, a rhaid rhoi'r brechiadau yn unol â chyngor milfeddyg a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.**
- 15 Argymhellir bod milgwn yn cael brechiad blynyddol ar gyfer Peswch Cŵn (yn ddefnyddol paraffliw [Math II] ar y cyd â Bordetella bronchiseptica fel brechlyn yn y trwyn) a gellid rhoi hwn ar adeg eu harchwiliad iechyd blynyddol.
- 16 **Rhaid cadw cofnodion brechu ar gyfer pob ci a chi bach a rhaid eu diweddarau'n rheolaidd.** *Dylai'r Person â Chyfrifoldeb sicrhau bod tystysgrifau brechu, gan gynnwys dyddiadau'r driniaeth nesaf, manylion y driniaeth sy'n ofynnol a chofnod o bwy a roddodd y driniaeth, yn cael eu llofnodi gan filfeddyg ar adeg pob brechiad, a'u cadw am o leiaf bum mlynedd.*
- 17 **Rhaid cael rhaglen i reoli parasitiaid mewdol ac allanol yn rheolaidd, fel yr argymhellir gan filfeddyg, ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.**
- 18 **Os canfyddir hwy, rhaid trin cŵn yn syth am unrhyw barasitiaid mewdol ac allanol (e.e. llyngyr, chwain a throgod) a chofnodi hyn yn eu cofnod iechyd unigol.**
- 19 **Rhaid cofnodi'r gofal iechyd ataliol ac iachael a roddir i gŵn unigol yn eu cofnod iechyd unigol.**

- 20 **Rhaid twtio pob milgwn yn rheolaidd trwy eu brwsio neu ymolchi, pa un bynnag sy'n angenrheidiol.** *Dylai hyn fod o leiaf bob wythnos ac yn amlach os oes angen i sicrhau bod y cotiau'n cael eu cadw mewn cyflwr da a glân.*
- 21 *Dylai ewinedd traed milgwn gael eu harchwilio o leiaf unwaith y mis a'u torri yn ôl yr angen i atal gordyfiant.*
- 22 **Rhaid i ofal am ddannedd milgwn fod yn rhan o'u hamserlen reoli.** *Dylai dannedd pob ci gael eu brwsio â brws a phast dannedd sy'n benodol i gŵn, o leiaf bob wythnos ac yn ddefnyddol bob dydd.*

### Triniaeth

- 23 **Rhaid rhagnodi meddyginiaethau presgripsiwn ar gyfer ci unigol a'u defnyddio yn unol â chyngor milfeddyg;** *dylid cofnodi eu defnyddio yng nghofnod unigol y ci.*
- 24 **Rhaid defnyddio meddyginiaethau heb bresgripsiwn yn unol â'r Cynllun Lles a Rheoli ac fel y cytunwyd â milfeddyg.**
- 25 *Dylid storio meddyginiaethau yn ddiogel ar y tymheredd cywir a hynny mewn man diogel i sicrhau na cheir mynediad heb awdurdod.*
- 26 *Dylid cwblhau pob cwrs yn unol â chyfarwyddyd milfeddyg.*
- 27 **Mae'r person sy'n gofalu am filgi yn gyfreithiol gyfrifol am fynd i chwilio am driniaeth filfeddygol yn syth ar gyfer unrhyw gi sy'n sâl neu wedi'i anafu.**
- 28 *Os cedwir milgwn mewn sefydliad i ffwrdd oddi wrth eu perchnogion, dylai'r perchennog/perchnogion awdurdodi rhoi triniaeth filfeddygol frys angenrheidiol yn eu habsenoldeb ac argymhellir eu bod yn llofnodi cytundeb ar gyfer pob milgi.*

### Glanweithdra

- 29 **Rhaid cadw pob man y mae gan gŵn fynediad iddo yn lân a heb faw a llwch**

wedi cronni er mwyn lleihau trosglwyddo afiechyd ac i sicrhau bod cŵn yn gyfforddus.

- 30 Rhaid i'r trefniadau glanhau fod yn ddigonol at ddibenion rheoli clefydau a diogelu lles y cŵn. *Dylid arddangos amserlenni a'r dyletswyddau glanhau a diheintio dyddiol, wythnosol, a misol.*
- 31 Rhaid i'r glanhau gynnwys fformiwleiddiad cydnabyddedig sy'n ddiogel, yn addas ac yn effeithiol yn erbyn pathogenau sy'n gyfrifol am glefydau cŵn. Rhaid i ddiheintyddion fedru lladd firws yn ogystal â bacteria a dylent gael eu cymeradwyo gan y Llywodraeth<sup>18</sup>.
- 32 *Dylid defnyddio cynnyrch glanhau a diheintio yn unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwr a dylai'r bobl sy'n defnyddio'r cynnyrch wybod sut i'w defnyddio'n ddiogel.*
- 33 *Dylid cadw cynnyrch glanhau allan o gyrraedd anifeiliaid.*
- 34 *Dylid cynnwys y rhaglen lanhau yn y Cynllun Lles a Rheoli a ddatblygwyd gyda chynghor milfeddygol.*
- 35 *Pan gaiff cŵn eu cadw mewn cenel neu ffald/lloc, dylid archwilio pob un bob dydd ar y lleiaf a'i gadw mewn cyflwr glân.*
- 36 *Dylid carthu y man y mae milgwn sy'n oedolion yn byw ynddo o leiaf ddwywaith y dydd – yn achos cŵn bach, dylid carthu'n amlach ac o leiaf bedair gwaith y dydd.*
- 37 *Dylid diheintio o leiaf unwaith yr wythnos a phan fydd ci yn gadael y cenel yn barhaol.*
- 38 *Dylid diheintio ardaloedd byw drwy ddefnyddio diheintyddion wedi'u cymeradwyo gan Defra, a hynny:*
- i) ar ôl achos o glefyd heintus;
  - ii) cyn cyflwyno milgi newydd;
  - iii) cyn esgor ar gŵn bach; ac
  - iv) ar ôl symud y cŵn bach.

### Cyfleusterau i gadw cŵn ar wahân

- 39 Rhaid cael cyfleusterau hunangynhwysol er mwyn cadw a gofalu am gŵn sy'n sâl, wedi'u hanafu neu a allai fod yn heintus (wedi'u gwahanu gan rwystr anhydraidd ac/ neu o leiaf 10m).
- 40 Rhaid mynd i edrych ar y cŵn yn y cyfleuster gwahanu yn rheolaidd ac oni bai bod staff eraill ar gael dylid ymweld â nhw ar ôl bod gyda phob ci arall.
- 41 *Dylai'r sefydliad ddarparu ar gyfer cadw anifeiliaid sâl / anafedig / heintus ar wahân, yn ogystal â'r rhai y tybir eu bod wedi dal clefydau heintus difrifol. Dylid manylu am y darpariaethau hyn yn fanwl yn y Cynllun Lles a Rheoli.*
- 42 *Pan fo'r cyfleuster i gadw cŵn ar wahân wedi'i ddarparu gan filfeddygfa'r sefydliad, dylid darparu llythyr yn nodi eu bod yn cytuno i ddarparu cyfleusterau o'r fath.*
- 43 *Ni ddylid caniatáu cŵn sy'n dangos arwyddion o glefyd heintus fynd i fannau yn yr awyr agored sy'n cael eu rhannu â chŵn ac anifeiliaid eraill.*
- 44 *Wrth drin cŵn mewn cyfleusterau o'r fath, dylid gwisgo dillad ac esgidiau amddiffynnol a dilyn protocolau glanweithdra.*
- 45 *Dylid storio cynwysyddion bwyd a dŵr, offer gwely a glanhau'r cyfleuster hwnnw ar wahân i rai gweddill y sefydliad.*

### Bioddiogelwch

- 46 *Dylai sefydliadau gael cynllun bioddiogelwch.*

*Ar y lleiaf dylai'r cynllun hwn gynnwys:*

- Cadw ar wahân;
  - i) Defnyddio cyfleusterau arwahanu/cadw ar wahân
  - ii) Diheintio bob dydd
  - iii) Defnyddio offer glanhau gwahanol
  - iv) Cael gwared â deunydd gwely a charthion

<sup>18</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ksi/2007/2803/contents/made>

- v) Defnyddio powlenni bwyd a dŵr gwahanol
- vi) Defnyddio baddonau traed
- vii) Cyfoethogi'r amgylchedd
- Padogau/llociau;
  - i) Defnyddio padogau gwahanol
  - ii) Cyswllt cyfyngedig â milgwn ac anifeiliaid eraill
  - iii) Mynediad cyfyngedig i badogau/caeau eraill
  - iv) Mynediad cyfyngedig i'r cyhoedd a staff nad ydynt yn gweithio yn y cenel
  - v) Glanhau, diheintio a charthu
- Cludiant;
- Staffio;
  - i) Neilltuo staff penodol
  - ii) Defnyddio offer amddiffynnol personol gan gynnwys gorchuddion traed a menig a throswisg
  - iii) Trin anifeiliaid
  - iv) Hylendid staff
  - v) Pa mor aml y dylid arsylwi
- Cael gwared ar garcas/cyrff marw.

### Cadw cofnodion

**47** Dylai'r sefydliad gadw cofrestr o'r holl gŵn ynghyd â gwybodaeth unigol am bob un

ohonynt. Dylai gynnwys y wybodaeth ganlynol er nad ystyrir bod y rhestr hon yn gynhwysfawr:

- i) y dyddiad y mae pob ci wedi cyrraedd;
- ii) enw pob ci, ei oedran, rhyw, statws ysbaddu, rhif microsglodyn a disgrifiad ohono;
- iii) manylion hanes meddygol ac ymddygiadol perthnasol pob ci, gan gynnwys manylion unrhyw driniaeth a roddwyd yn erbyn parasitiaid a chyfyngiadau ar ymarfer corff;
- iv) manylion am ddiety y ci ac anghenion cysylltiedig;
- v) ffurflenni caniatâd;
- vi) cofnod o ddyddiad/dyddiadau brechiadau diweddaraf pob ci, ynghyd â'u triniaeth llyngyr a chwain diweddaraf;
- vii) manylion unrhyw driniaeth feddygol y mae pob ci yn ei chael.

**Adnabod cŵn** (gweler hefyd Rhan 3)

**48 Rhaid i bob ci gael microsglodyn arno a dylid cael modd rhwydd o'i adnabod, er enghraifft defnyddio coler a llabed enw.**

**49 Dylid cael system i sicrhau adnabod cywir ar y cŵn sy'n cael eu cadw yn y sefydliad.**

**50 Dylid cael rhif clir a pharhaol ar lociau unigol yn y cenel a dylid rhoi'r manylion gwybodaeth berthnasol arno.**



Llun: Nerys Royal

## RHAN 10: CYFARFODYDD RASIO A THREIALU

Mae'r amodau canlynol yn seiliedig ar 'Rheoliadau Lles Milgwn sy'n Rasio (Lloegr) 2010<sup>19</sup> y bwriedir iddynt ddiogelu lles milgwn yn y trac rasio. Maent yn cynnwys darpariaethau ar gyfer presenoldeb a chyfleusterau milfeddygol, cenel, adnabod a chofnodi milgwn sy'n rasio ac anafiadau.

### a. Presenoldeb milfeddyg yn y trac

- 1 *Dylai milfeddyg sydd wedi'i hyfforddi'n briodol fod yn bresennol ar y trac, ac mewn treialon gwerthu cyn dechrau rasio (ac mewn da bryd i gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn y cod hwn), gan aros yno trwy gydol y rasio a hyd at 15 munud ar ôl i'r ras ddiwethaf orffen.*
- 2 *Dylai'r milfeddyg a swyddogion y trac gwrdd cyn y ras gyntaf ac ni ddylid rasio oni bai fod pawb yn cytuno bod y trac mewn amodau addas a heb beryglon.*
- 3 *Os bydd unrhyw ddamwain anarferol neu amodau hinsoddol niweidiol yn ystod cyfarfod, dylai'r milfeddyg a'r swyddogion gydlynw â'i gilydd a sicrhau bod pawb yn cytuno cyn y gall y rasio barhau. Argymhellir bod gan y naill neu'r llall yr hawl i fynnu bod rasio yn stopio ar sail y tywydd ac/neu les.*
- 4 *Dylai'r milfeddyg gynnal archwiliad corfforol ar bob ci cyn iddynt rasio, gan wneud yn siŵr fod cyflwr y corff yn briodol, nad yw'r ci yn gloff, gan archwilio ei ddannedd a gwirio nad yw milieist yn cwna.*
- 5 *Dylai'r milfeddyg edrych ar bob ras.*
- 6 *Dylai'r milfeddyg edrych ar bob ci sy'n gadael y trac ar ôl rasio.*
- 7 *Dylai'r milfeddyg gynnal archwiliad corfforol ar ôl y ras ar unrhyw gi sydd wedi bod yn rhan o wrthdrawiad, neu ddigwyddiad arall neu yr amheuir ei fod yn gloff wrth adael y trac.*

### b. Cyfleusterau ar gyfer y milfeddyg

- 1 *Dylai'r milfeddyg sy'n bresennol fedru defnyddio ystafell neu gyfleuster symudol:*
  - i) *sydd yn lân ac sydd â waliau a lloriau sydd ag arwyneb anhydraidd sy'n rhwydd ei lanhau;*
  - ii) *y mae modd ei gloi;*
  - iii) *sydd â golau da;*
  - iv) *sydd â gwres ac awyru;*
  - v) *sydd â dŵr tap oer a phoeth;*
  - vi) *sydd â bwrdd archwilio sy'n addas ar gyfer archwilio milgwn;*
  - vii) *sydd â chwprdd sy'n cloi sy'n addas ar gyfer storio meddyginiaeth i anifeiliaid;*
  - viii) *sydd ag oergell sy'n addas ar gyfer storio meddyginiaeth i anifeiliaid;*
  - ix) *wedi'i leoli yn ddigon agos at yr ardal lle cynhelir y ras neu dreial neu dreial gwerthu i fedru cael mynediad cyflym iddo petai argyfwng;*
  - x) *sydd â rhewgell yn addas ar gyfer storio carcass milgwn;*
  - xi) *yn cynnwys crât neu genel, i'w ddefnyddio mewn achosion milfeddygol brys*
- 2 *Argymhellir yn gryf y dylai'r milfeddyg gael digon o gyflenwadau i gynnal triniaeth frys ac ewthanasia ar nifer o gŵn yn y cyfarfod rasio pe bai angen hynny.*

<sup>19</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2010/9780111489727/contents>



### c. Rheoli cŵn ar y trac

- 1 Rhaid i berchnogion beidio â rasio cŵn nad ydynt yn ffit neu'n iach i rasio.**
- Ni ddylai rasio ddigwydd os yw'r tymheredd yn 28°C ac uwch oni bai:*
  - bod y milgwn sy'n mynychu'r trac yn cael eu cludo yno mewn cerbydau sydd ag aerdymheru; ac,*
  - maent wedi'u cadw mewn rhan o'r trac lle gellir cadw tymereddau rhwng 10°C a 26°C; ac,*
  - mae gan y trac fecanweithiau oeri cyflym i oeri milgwn ar ôl ras megis ystafelloedd ag aerdymheru oeri.*
- Ni ddylai milgwn o dan 15 mis oed redeg mewn unrhyw ras neu dreial. Oedran milgi yw diwrnod cyntaf y mis y cawsant eu geni.*
- Ni ddylid treialu na rasio milieist sydd yn cwna neu'n agos at y cyfnod hwnnw, oherwydd gall hyn achosi rhwystredigaeth i'r milgwn gwrywaidd cyfagos.*
- Dylid cynhesu pob ci cyn y ras, a'i oeri ar ôl rasio.*
- Dylid glanhau traed pob ci (a'i safnffrwyng os oes angen hwnnw) i gael gwared â thywod ar ôl rasio.*
- Os nad yw milgi wedi rasio ers chwe mis, neu os oedd wedi bod mewn digwyddiad yn eu ras ddiwethaf, dylent wneud treial a chael eu cadarnhau i fod yn ffit gan y milfeddyg a swyddogion y trac cyn rasio yn gystadleuol.*
- Os nad yw milgi wedi rasio ers chwe mis neu fwy am unrhyw reswm, dylai milfeddyg edrych arno cyn iddo gymryd rhan mewn treial neu ras.*
- Argymhellir rhoi cŵn yn y trapiau y bernir eu bod yn gyfforddus yn rhedeg ynddynt ac na chânt eu symud fwy nag un safle trap ers eu ras ddiwethaf.*

### d. Adnabod milgi

- Dim ond milgwn sydd wedi'u hadnabod drwy ficrosglodyn ac sydd wedi'u cofrestru ar gronfa ddata'r trac y dylid caniatáu iddynt rasio.*
- Dylai swyddog y trac ac/neu filfeddyg wirio pob milgi sy'n mynd i dreial neu ras i sicrhau eu bod yn gallu hadnabod y milgi drwy ficrosglodyn.*

### e. Cadw cofnodion

- Dylai unrhyw anafiadau neu gloffni a gafwyd ar y trac, ac unrhyw driniaethau a roddwyd, gael eu cofnodi ar gronfa ddata'r trac a dylid cadw'r cofnodion yn unol â deddfwriaeth GDPR.*
- Dylai'r cofnod gynnwys: dull hadnabod y milgwn, natur yr anaf a gafwyd, manylion unrhyw driniaeth a roddwyd, pellter y ras neu'r treial gwerthu y digwyddodd yr anaf ynddo a dyddiad yr anaf. Rhaid i weithredwr y trac gadw'r wybodaeth hon yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data.*
- Argymhellir dadansoddi'r cofnodion bob mis o leiaf a bod tueddiadau mewn anafiadau yn cael eu nodi a'u defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch rheoli trac er mwyn lleihau digwyddiadau yn y dyfodol.*

### f. Cenedl y trac

- Pan ddarperir cenedl/cwt, rhaid iddynt fod:**
  - **yn ddigon mawr i adael i gŵn symud a gorwedd i lawr ynddynt heb gyffwrdd â'r ochrau na'r to, ac i allu osgoi unrhyw wrin a baw;**
  - **yn ddiogel** fel na ellir rhoi unrhyw sylweddau i'r cŵn;
  - **â golau naturiol ac wedi'u hawyru'n dda.**
- Rhaid i ddŵr fod ar gael drwy'r amser i bob ci.**

- 3 Os yw'r cŵn yn mynd i aros yn eu cerbydau cludo cyn neu ar ôl y ras, rhaid i'r ardal lle mae'r ci ynddo fod yn ddigon mawr i adael i'r ci droi o gwmpas a gorwedd gan ymestyn yn llawn.
- 4 Rhaid i'r tymheredd yn y man ble mae'r cŵn yn aros fod yn gyson rhwng 10 a 26°C.

### g. Trin salwch ac anafiadau a gafwyd wrth rasio

- 1 Pan fydd milgi yn mynd yn sâl neu'n cael ei anafu mewn digwyddiad rasio, rhaid cael cyngor milfeddyg ar unwaith.
- 2 Os yw milfeddyg neu swyddog rasio arall wedi pennu cyfnod 'anallu' (incapacitation) yn flaenorol (yn dilyn anaf), dim ond ar ôl i'r cyfnod hwnnw fynd heibio y dylai ci rasio, neu pan fydd

*milfeddyg wedi datgan ei fod yn ffit ac wedi cwblhau treial.*

- 3 Dylid cofnodi'r anaf (gweler adran 10e).

### h. Rheoli trac

- 1 Rhaid i'r holl ddeunyddiau sy'n rhan annatod o'r trac rasio gan gynnwys rhwystrau, trapiau, arwynebau a'r ysgyfarnog gael eu dylunio a'u cynnal yn y fath fodd i atal anaf ac/neu niwed i filgwn rasio.
- 2 Os yw dadansoddi cofnodion yn awgrymu y gallai tueddiadau mewn anafiadau fod yn gysylltiedig ag agweddau ar reoli trac, argymhellir y dylid diwygio protocolau rheoli mewn ymdrech i leihau digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol, a dylid monitro'r effeithiau'n fanwl.



Llun: AWWN

## RHAN 11: GADAEI Y DIWYDIANT

1 Pan fydd milgi yn gadael y diwydiant drwy unrhyw lwybr, dylid cofnodi yng nghronfa ddata'r trac y rheswm dros hynny, y llwybr ymadael ac enw'r ganolfan ailgartrefu neu berchennog preifat neu achos y farwolaeth, os yw'n briodol.

### a. Ymddeol

1 Mae'n gyfrifoldeb ar y cyd rhwng y bridiwr, y perchennog a'r hyfforddwr i sicrhau, pan fydd milgi yn gadael y diwydiant, bod gan bob ci y cyfle gorau i gael ei ailgartrefu a'i fod yn gallu mwynhau bywyd hapus ac iach. Mae hyn yn cynnwys gwneud pob ymdrech resymol i baratoi'r milgi at gael ei ailgartrefu yn ogystal â rhoi hyfforddiant cymdeithasoli ac ymddygiad priodol iddo gyda hyfforddwr ardstyiedig sydd â chymwysterau addas.

2 Argymhellir yn gryf y dylid ailgartrefu drwy ddefnyddio mudiad ag enw da, sy'n aelod o Gymdeithas Cartrefi Cŵn a Chathod<sup>20</sup> a bod cynlluniau a pharatoi at ymddeoliad y ci yn digwydd mor gynnar â phosibl.

3 Os caiff milgi ei ailgartrefu cyn cwblhau rhaglen baratoi, dylai'r perchennog cofrestredig roi gwybodaeth i berchennog newydd y milgi neu ei ofalwr dros dro am iechyd ac ymddygiad y milgi ar adeg ei fabwysiadu ynghyd â manylion yr ymdrechion a wnaed i baratoi'r ci ar gyfer ailgartrefu.

### b. Adsefydlu / Addasu Ymddygiad

1 Yn ystod eu gyrfa rasio, dylid cyflwyno cŵn yn raddol i leoedd newydd, er mwyn hwyluso'r cyfnod pontio diweddarach ar ôl ymddeol.

2 Cyn ailgartrefu, dylid dysgu milgwn i dreulio amser yn dawel ar eu pennau eu hunain, oherwydd gall hyn atal datblygu problemau sy'n gysylltiedig â gwahanu, dylent gael eu cyflwyni'n raddol i gyfnodau sy'n gynyddol hirach o fod ar eu pennau eu hunain a gall hyn fod yn rhan o hyfforddiant crât rasio neu weithgareddau hyfforddi eraill.

3 Dylai unrhyw amser y mae cŵn yn ei dreulio ar ei ben ei hun fod yn brofiad positif, er enghraifft, trwy ddarparu eitem bwyd neu degan hirhoedlog a ffefrir ganddynt. Os yw'r milgi dan straen ac nad yw'n setlo yna dylai'r gofalwr ddod â'r sesiwn i ben ac yn y sesiwn nesaf dylid gadael y milgi ar ei ben ei hun am gyfnod byrrach, fel nad ydynt yn mynd yn ofidus.

4 Cyn cael eu hailgartrefu gydag aelod o'r cyhoedd, dylid cyflwyno pob milgi i broses raddio a gynlluniwyd ymlaen llaw gan gynnwys eu cyflwyno i olygfeydd, synau a phrofiadau y maent yn debygol o ddod ar eu traws mewn cartref a dylai'r ci ddangos ei fod yn ddigyffro yn eu presenoldeb.

5 Dylai hyn gynnwys:

- i) cerdded ar dennyn;
- ii) strydoedd distaw a rhai prysur;
- iii) amrywiaeth o bobl gan gynnwys plant;
- iv) peiriannau a dyfeisiau mewn tai.

6 Dylai'r cyflwyniad iddynt fod yn raddol, a dylid gwobrwyo ymddygiadau digynnwrf.

7 Os yw cŵn yn methu â chynefino ag ysgogiadau penodol ac yn parhau i ddangos ofn, dylid eu cyfeirio at arbenigwyr clinigol cymwys mewn ymddygiad anifeiliaid. ([www.abtcouncil.org.uk](http://www.abtcouncil.org.uk))

### c. Ailgartrefu

1 Dylid ceisio canfod cartref newydd i bob milgi sydd wedi ymddeol yr aseswyd bod ei iechyd a'i anian yn addas i'w ailgartrefu (gan yr hyfforddwr, y perchennog, y milfeddyg a chynrychiolydd elusen sy'n ailgartrefu i gartref addas) neu ei roi i loches neu elusen sy'n ailgartrefu neu ei gadw fel anifail anwes. Gall y Gymdeithas Cartref i Gŵn a Chathod (ADCH) roi gwybodaeth am elusennau sy'n ailgartrefu yn lleol.

2 Derbynnir y bydd angen defnyddio safnffrwyng ar adegau ar filgwn wedi ymddeol, yn

*enwedig yn syth ar ôl ymddeol. O'u defnyddio'n gywir, gall y rhain fod yn offer defnyddiol i ganiatáu ymarfer corff yn ddiogel, tra bo hyfforddiant yn parhau.*

- 3 Argymhellir y dylai unrhyw sefydliadau ac unigolion sy'n ailgartrefu milgwn i aelodau'r cyhoedd roi gwybodaeth frifio llawn a darparu deunyddiau addysgol ar anghenion lles y ci gan gynnwys cyngor ar reoli ymddygiad a hwyluso'r trawsnewid i amgylchedd domestig.
- 4 Dylid ysbaddu pob milgi cyn ei ailgartrefu.
- 5 Dylid rhoi datganiad iechyd, lles a rheoli gyda phob milgi rasio sydd wedi ymddeol ac sy'n cael ei werthu, ei roi i ffwrdd neu ei drosglwyddo. Dylid cynnwys manylion unrhyw annormaledd corfforol hysbys (gan gynnwys anaf) ar adeg ei werthu neu ei drosglwyddo, unrhyw driniaeth y mae'r milgi yn ei derbyn neu ei hangen, a sut y gall yr annormaledd hwnnw effeithio ar iechyd a lles tymor byr a thymor hir y milgwn, ynghyd â chynnwys eu tystysgrifau brechu.
- 6 Dylid hysbysu'r awdurdodau rasio am y newid perchnogaeth yn ogystal â chwmmi'r microsglodyn.
- 7 Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, argymhellir ailgartrefu parau cydnaws o'r un cenedl gyda'i gilydd.

#### **d. Ewthanasia**

- 1 Os cedwir milgwn mewn lleoliad i ffwrdd oddi wrth eu perchnogion, dylai'r perchennog/perchnogion rag-awdurdodi darparu ewthanasia brys yn eu habsenoldeb ac argymhellir eu bod yn llofnodi cytundeb ar gyfer pob milgi.
- 2 Dylid cynnal ewthanasia ar gyngor milfeddyg a chan filfeddyg, a hynny pan:
  - i) *na ellir rheoli poen, trallod neu ddiodefaint y milgi yn ddigonol;*

ii) *mae iechyd neu les y milgi wedi'i beryglu i'r fath raddau nes bod y tebygolrwydd o gael bywyd pleserus yn isel; neu*


iii) *sylweddolir bod y milgi yn anaddas i'w ailgartrefu (gan yr hyfforddwr, perchennog, milfeddyg a chynrychiolydd elusen sy'n ailgartrefu) a bod hyn wedi'i gadarnhau gan brofion anian ac ymddygiad a gynhaliwyd gan arbenigwr clinigol ymddygiad anifeiliaid.*

- 3 Dylai'r milfeddyg roi Tystysgrif Ewthanasia i'r perchennog cofrestredig ar ôl cynnal yr ewthanasia ar y milgi.
- 4 Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid cynnal yr ewthanasia mewn ardal sydd ar wahân i unrhyw ardal lletya milgwn ac allan o olwg ac arogl milgwn eraill, ac allan o olwg y cyhoedd.
- 5 Os bydd milgi rasio yn marw drwy ffordd heblaw trwy ewthanasia, dylai'r person sy'n gyfrifol gael barn milfeddyg i bennu achos y farwolaeth, p'un ai trwy archwiliad neu bost mortem.

Datblygwyd y cod hwn gan ddefnyddio cymynrodd a adawyd i'r RSPCA i wella lles milgwn rasio. Roedd yr arian wedi golygu gallu sicrhau gwasanaethau Dr Nicola Rooney a gyd-ysgrifennodd y cod hwn gyda Dr Samantha Gaines, Pennaeth Gwyddor a Pholisi Anifeiliaid Anwes yr RSPCA ar ran Gweithgor Lles Milgwn, sef is-grŵp o Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW).

## ATODIAD A: SIART SGÔR CYFLWR Y CORFF


### 1. Esgyrnog



- i) Asennau unigol, asgwrn y cefn a'r pelfis yn amlwg ac yn weladwy o bell.
- ii) Dim màs o gyhyrau.
- iii) Ychydig neu ddim bloneg ar y corff.
- iv) Bôn y gynffon yn bantiog.
- v) Siâp y wasg/canol yn weladwy iawn o edrych lawr ar y ci.
- vi) Y bol yn amlwg ynghudd.
- vii) Y gwddf yn denau.
- viii) Dim bloneg ar y gynffon.

**Rhaid cael cyngor milfeddyg.**

### 2. Tenau



- i) Yr asennau, asgwrn y cefn ac esgyrn y pelfis yn weladwy ac yn hawdd eu teimlo.
- ii) Ychydig iawn o floneg ar y corff.
- iii) Y gwddf yn denau.
- iv) Y bol ynghudd.
- v) Ychydig iawn o floneg ar y cynffon.
- vi) Siâp y wasg/canol yn amlwg wrth edrych lawr ar y ci.

Rhowch fwy o fwyd i'r ci a rhowch driniaeth cael gwared â llyngyr os na wnaed hynny'n ddiweddar (gwnewch yn siŵr eich bod y defnyddio triniaeth gyflawn – nid yw rhai triniaethau yn cael gwared â phob llyngyr).

**Gofynnwch am gyngor milfeddyg os yw'r pwysau'r ci yn dal i fod yn rhy isel neu os ydych yn ansicr ynghylch y bwydo neu'r driniaeth cael gwared â llyngyr.**


Mae gan filgwn rasio sgôr cyflwr y corff sydd hanner ffordd rhwng tenau a delfrydol.

### 3. Delfrydol



- i) Gellir teimlo'r asennau ac asgwrn y cefn, efallai y bydd rhai o'r asennau diwethaf yn weladwy.
- ii) Dylai'r ci fod â gwasg wrth edrych lawr arno.
- iii) Y bol ynghudd wrth edrych arno o'r ochr.
- iv) Màs da o gyhyrau.
- v) Bôn y gynffon yn gyhyrog.

#### 4. Rhy drwm




- i) Yr asennau ac asgwrn y cefn ddim yn weladwy ond gellir eu teimlo.
- ii) Bloneg ar y gynffon.
- iii) Ychydig neu ddim gwasg wrth edrych lawr ar y ci, mae ei siâp yn grwn, y cefn fel petai'n mynd yn lletach.
- iv) Y ci yn sgwâr ar hyd llinell y cefn wrth edrych arno o'r ochr.
- v) Y bol heb ei guddio, gall ymddangos yn grwn oddi tano.

Dylid rhoi llai o fwyd neu roi bwyd sydd â llai o galoriau. Dylid cynyddu ymarfer corff.

**Gofynnwch am gyngor milfeddyg os ydych yn ansicr ynghylch y diet priodol neu os oes pryderon ynghylch yr ymarfer corff.**

#### 5. Gordew



- i) Yr asennau ac asgwrn y cefn ddim yn weladwy ac yn anodd eu teimlo.
- ii) Mae bloneg yn amlwg ar y gynffon.
- iii) Dim gwasg a'r cefn yn mynd yn lletach wrth edrych lawr ar y ci.
- iv) Y bol yn amlwg yn grwn ac o bosibl wedi ymestyn.
- v) Y ci yn sgwâr neu'n grwn ar hyd y llinell gefn wrth edrych arno o'r ochr.

**Gofynnwch am gyngor milfeddyg i gael cyngor ar ddiet ac ymarfer corff.**